# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 29 Chwefror 2024**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Michael Williams

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Walter Williams.

**Ymddiheuriadau** – Y Cyngr. Dyfrig Jones, Huw Jones, Catrin Wager a Rheinallt Puw.

**2. Datgan Diddordeb**
Datgan diddordeb gan wahanol gynghorwyr o dan eitem 7. Rhoddion.

**3. Materion Brys**
**Safonau ffyrdd a phalmentydd –** Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi derbyn llawer o gwynion gan drigolion lleol am safonau'r ffyrdd a phalmentydd o fewn Bethesda, yn enwedig ar Ffordd Abercaseg, y Stryd Fawr ac Allt Penybryn. Penderfynwyd y bydd y Cyng. Einir Williams yn adrodd i Gyngor Gwynedd am Ffordd Abercaseg, a'r Clerc i adrodd am y ddwy ardal arall.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2024.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Maes parcio wrth y Sior, Carneddi - Cais i ail beintio'r llinellau -** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd ail beintio'r llinellau - ar y gweill. Cytunwyd y bydd y Cyng. Einir Williams yn holi Cyngor Gwynedd hefyd.
**5.2 Llinellau Melyn Ffordd Llwyn Bleddyn –** Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn i dynnu'r llinellau melyn ar ffordd Llwyn Bleddyn, dim ymateb hyd yn hyn.
**5.3 Gwasanaeth Bws Gerlan -** Adroddwyd nad oedd digon o ddefnydd o'r bws cyswllt o Gerlan i Fethesda yn ystod mis Ionawr, ac felly penderfynwyd newid y gwasanaeth i wasanaeth 'ar alw' yn unig. Nodwyd fod y gwasanaeth dydd Sul gan Dilwyn's Coaches yn dod i ben ymhen pythefnos. Nododd y Clerc ei bod yn cyfarfod gyda Dafydd Wyn Williams, Cyngor Gwynedd

ynglŷn â'r gwasanaethau ar ran Cyngor Cymuned Llandygai, cytunwyd y bydd yn codi'r materion uchod ar ran Cyngor Cymuned Bethesda hefyd.
**5.4 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig -** Y les gwreiddiol angen ei adnewyddu, cytunwyd bydd y Clerc yn cael cyngor cyfreithiol ynglŷn â llunio les hollol newydd, nid yw'r les presennol yn addas.
**5.5 Sedd Wag -** Ni dderbyniwyd cais am etholiad drwy Gyngor Gwynedd, felly mae'n bosib i'r Cyngor Cymuned cyfethol eu hunain. Y Clerc i hysbysebu'r sedd wag cyn gynted a bu'r modd.
**5.6 Toriadau Gwair -** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd am godi'r gwair ar ôl y 3 toriad cyntaf ac i holi am 3 torri a chodi ychwanegol, felly cyfanswm o 6 toriad - Nodwyd fod y Clerc yn cyfarfod â swyddogion Cyngor Gwynedd dydd Llun, 4ydd o Fawrth.
**5.7 Partneriaeth Ogwen – Bil Trydan Llyfrgell –** Y Clerc i holi am adroddiad gan y Bartneriaeth am y cytundeb gwreiddiol efo'r Cyngor Cymunedau, ac i holi am ychwaneg o wybodaeth ynglŷn â'r costau cysylltiedig.

**6. Rhoddion**
Trafodwyd y rhestr rhoddion. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei Dderbyn fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Llais Ogwan | £500.00 | *(Datgan diddordeb NH, WW)* |
| Clwb Camera Dyffryn Ogwen | £150.00 | |
| Eglwys Crist Glanogwen | £400.00 | *(Datgan diddordeb- AW)* |
| Gŵyl Afon Ogwen | £200.00 | |
| Clwb Criced a Bowlio | £500.00 | |
| Apêl Cronfa Cyfle i bawb yr Urdd | £100.00 | |
| Dawns i bawb | £100.00 | |
| Ambiwlans Awyr | £500.00 | |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen | £150.00 | |
| Carnifal Bethesda | £750.00 | |
| Theatr Bara Caws | £300.00 | |
| Sefydliad y Merched, Carneddi | £50.00 | |
| CFFI Eryri | £50.00 | |
| Radio Ysbyty Gwynedd | £100.00 | |
| Urdd Gobaith Cymru | £100.00 | |
| Sioe Frenhinol Sir Caernarfon 2024 | £250.00 | |
| Hwb Ogwen | £500.00 | |
| Balchder Bro | £1000.00 | *(Datgan diddordeb NH, PR)* |
| Caban Gerlan | £1500.00 | *(Datgan diddordeb AW, LB, AW)* |

**7. Cynrychiolydd ar Fwrdd Ynni Ogwen**
Penderfynwyd ail gyflwyno'r eitem hon yn y cyfarfod nesaf.

**8. Maes Parcio Gerlan**
Adroddwyd fod y Clerc wedi bod mewn cyswllt hefo cyfreithiwr ar ran y Cyngor, ac wedi cyfarwyddo nhw i gysylltu gyda chyfreithiwr y tir feddiannwr – dim diweddariad hyd yn hyn.

Derbyniwyd anfoneb a dadansoddiad o'r costau gan YGC, a nodwyd eu bod wedi gorwario o dan lawer o'r penawdau. Penderfynwyd cyflwyno'r eitem hwn i'r pwyllgor cyllid ym mis Ebrill.

**9. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2024'
**9.1 System Unffordd, Pant Glas -** Penderfynwyd yn y cyfarfod diwethaf fod y Cyngor Cymuned yn cefnogi mewn egwyddor, yn ddibynnol ar farn y trigolion lleol. Nodwyd fod y Cyngor Cymuned yn ffafrio opsiwn 2, os oes rhaid dewis, ond fod yn bwysig gofyn am farn y trigolion lleol cyn mynd ymlaen efo'r cynlluniau.
**9.2 Addasiadau i Gorffwysfan -** Penderfynwyd bydd y Clerc yn cael pris i dynnu'r aelwyd o Gorffwysfan ac yn trefnu i gael gwared o'r cabinet.
**9.3 Llinellau melyn Pant Glas –** Penderfynwyd disgwyl i weld be ddaw o'r cais am system unffordd i ddechrau, cyn dod i benderfyniad.
**9.4 Rheolwr Prosiect Cynlluniau Canol Tref - Strategaeth Arwyddo -** Pawb i ddanfon unrhyw awgrymiadau i'r Clerc drwy e-bost.
**9.5 Michaela Davies, Preswylwyr Llain y Pebyll -** Cais am groesfan pelican ger Llain y Pebyll - Adroddwyd fod ceisiadau hanesyddol am groesfan yn y man hwn. Penderfynwyd bydd y Cyng. Paul Rowlinson yn gwneud cais eto.

**10. Penderfyniadau a Cheisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C23/0207/13/CR**<br>Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C23/0729/13/LL**<br>Bron Arfon, Ffordd Llwyn Bleddyn, Rachub | Trosi adeilad allanol yn 1rh. Uned Gosod Gwyliau ynghyd â phob Datblygiad Cysylltiedig arall<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |

**<u>Ceisiadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C23/0957/13/DT**<br>Yr Hen Fecws, 4 Tŷ'n Y Coed, Carneddi, | Estyniad un llawr i'r eiddo presennol ac ymestyn cwrtil<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.<br>*Cyng. Dyfrig Jones yn datgan diddordeb.* |
| **C23/0969/13/LL**<br>Natwest Bank, 13 Stryd Fawr, Bethesda | Addasu'n fewnol adeilad presennol o ddefnydd busnes ar y llawr gwaelod gyda 3 fflat preswyl i ddefnydd busnes ar y llawr gwaelod gyda 6 fflat preswyl.<br>**Penderfyniad:** Does dim cynlluniau o'r tŷ allan ar gael, felly mae'n anodd gweithio allan os oes estyniad ar y cefn a beth fydd edrychiad yr adeilad. Mae'r fflatiau yma yn fach iawn - rhy fach i bobl allu byw ynddyn nhw. Ai fflatiau gwyliau ydy'r bwriad felly? Nid yw hyn yn cael ei nodi. |

**11. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | Cyfraniad tuag at gostau rhedeg Llyfrgell 2023/24 | £3,820.29 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £190.95 |
| John Wyn Jones | Cyflog Chwefror | £364.00 |
| CThEM | TWE Chwefror | £91.00 |

**12. Crynodeb Llais Ogwan**

Penderfynwyd cynnwys yr isod:

- Sustem Unffordd Pantglas
- Peintio llinellau parcio – Maes parcio ger y Siôr
- Safonau ffyrdd a phalmentydd
- Rhoddion blynyddol
- Sedd wag